

# TABW

# Cymorth i ddioddefwyr Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol a Gyflawnwyd gan yr Heddlu

De Cymru
Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu
Police and Crime Commissioner
South Wales

COMISIYNYDD YR HEDDLU A TROSEDD
GWENT
POLICE AND CRIME COMMISSIONER

Vale
DOMESTIC ABUSE SERVICES
GWASANAETHAU CAM-DRIN DOMESTIG

CYMORTH I FENYWOD
CYFANNOL
WOMEN'S AID

**TABW: Cymorth i ddioddefwyr Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol a Gyflawnwyd gan yr Heddlu**



# Ynglŷn â'r Gwasanaeth

**Mae Tabw yn darparu cymorth ac eiriolaeth i oroeswyr-dioddefwyr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol a gyflawnwyd gan yr heddlu sy'n byw neu'n gweithio yn ardaloedd heddluoedd De Cymru neu Gwent. Bydd Tabw hefyd yn cynnig y cymorth hwn i gydweithwyr yr heddlu yn yr ardaloedd heddluoedd hyn. Mae'r gwasanaeth ar agor i bobl o bob rhywedd.**

Mae angen y gwasanaeth arbenigol hwn oherwydd bod goroeswyr-dioddefwyr cam-drin domestig a gyflawnwyd gan yr heddlu yn wynebu heriau cynyddol ac unigryw, o ganlyniad i'r anghydbwysedd pŵer a achosir gan broffesiwn y cyflawnwr. Mae heriau ychwanegol yn wynebu gweithwyr heddlu sy'n profi effaith yn eu bywydau personol a phroffesiynol.

Bydd arbenigwyr Cynghorydd Annibynnol ar Drais Domestig a Gyflawnwyd gan yr Heddlu (IPPVA) yn darparu cymorth emosiynol ac ymarferol i annog goroeswyr-dioddefwyr i gysylltu, gan ymateb i'w hanghenion ehangach. Bydd y gwasanaeth yn darparu eiriolaeth trwy'r prosesau troseddol, sifil ac, os yw'n briodol, prosesau mewnol yr heddlu. Gall yr arbenigwyr hefyd drafod unrhyw faterion gyda goruchwylwyr neu gydweithwyr yn yr heddlu sydd wedi derbyn datgeliadau.

Mae'r gwasanaeth diduedd a chyfrinachol yn cael ei ddarparu gan bartneriaeth Gwasanaethau Cam-drin Domestig y Vale a Chymorth i Fenywod Cyfannol ar draws De Cymru a Gwent. Mae gan y ddwy elusen dros 40 mlynedd o brofiad o gefnogi goroeswyr cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Mae tîm Tabw yn bwriadu cwrdd â thimau ar draws yr heddlu a byddant ar gael i gynnal sesiynau galw heibio neu fynychu cyfarfodydd tîm i drafod y prosiect. Gellir trefnu hyn trwy e-bostio tabw@valedas.org

Gellir atgyfeirio trwy lwybr ffurfiol, gan gyflwyno PPN i fewnflwch diogel:

tabw@atalyfro.cjsm.net

neu atgyfeirio, gan gynnwys hunan-atgyfeirio, yn llai ffurfiol i:

tabw@valedas.org

trwy roi enw a gwybodaeth gyswllt ddiogel a disgrifiad o'r hyn sy'n digwydd a bod gennych gydsyniad i atgyfeirio.

Bydd y gwasanaeth yn ymateb o fewn tri diwrnod gwaith.



# Cwestiynau Cyffredin

**Beth mae IPPVA (Cynghorydd Annibynnol ar Drais Domestig a Gyflawnwyd gan yr Heddlu) yn ei wneud?**

Mae'r IPPVA yn Gynghorydd Annibynnol ar Drais Domestig (IDVA) cymwys sy'n deall arlliwiau Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol. Byddant yn darparu cymorth emosiynol ac ymarferol, byddant yn sicrhau eich bod yn cael eich hysbysu trwy'r prosesau ymchwilio troseddol, sifil a'r heddlu. Byddant yn eich helpu i ddeall yr hyn sydd wedi digwydd a llunio cynllun. Byddant yn gwrando'n astud ac yn sicrhau bod eich llais yn cael ei glywed. Gallant helpu gyda llawer o broblemau eraill sydd wedi'u hachosi gan eich profiadau, megis iechyd meddwl, cyllid, tai, effaith ar eich plant, ffrindiau a pherthnasoedd eraill. Efallai y byddan nhw'n gallu gwneud hyn eu hunain neu'ch helpu chi i ddod o hyd i gymorth arall sydd ei angen arnoch chi. Nid oes unrhyw derfyn amser. Nid ydynt wedi'u cyflogi gan yr heddlu ac maent yn ddiduedd. Oni bai bod unrhyw faterion diogelu, mae popeth a ddywedir yn gyfrinachol.

**A fyddem yn rhannu'r PPN gyda'r gwasanaeth Cymorth i Fenywod/IDVA lleol neu Tabw yn unig?**

Mae pob PPN risg uchel ar gyfer Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol a gyflawnir gan yr heddlu i'w hanfon yn uniongyrchol at gyfeiriad e-bost CJSM Tabw, nid at y gwasanaeth IDVA lleol. Yn dilyn cyswllt gan yr IPPVA, gellir gwneud atgyfeiriad i'r gwasanaeth IDVA lleol os mai dyna yw dewis y goroeswr.

**Beth am PPN Canolig/Safonol heb gydsyniad?**

Dim ond os gwyddys eu bod yn Risg Uchel neu os yw risg canolig/safonol wedi'i diystyru i uchel y gallwn dderbyn atgyfeiriadau heb ganiatâd.

**A all Tabw gefnogi os yw'r dioddefwr yn aelod o'r heddlu a'r cyflawnwr honedig ddim yn aelod o'r heddlu?**

Gall, mae Tabw yn cymryd atgyfeiriadau ar gyfer staff yr heddlu hyd yn oed os nad yw'r cyflawnwr yn staff yr heddlu, oherwydd rydym yn ymwybodol bod rhwystrau ychwanegol i ddatgelu pan fyddwch yn gweithio i'r heddlu. Fodd bynnag, nid oes rhaid bod y rhain o fewn ardaloedd Heddlu De Cymru neu Gwent.

**Pwy sydd â mynediad at yr atgyfeiriadau?**

Dim ond yr IPPVA a'u rheolwyr llinell uniongyrchol sydd â mynediad at yr atgyfeiriadau ac unrhyw wybodaeth arall. Bydd yr holl wybodaeth a dderbynnir yn cael ei storio ar gronfa ddata gyfrinachol sydd wedi'i chuddio rhag aelodau staff eraill o fewn ValeDAS a Chymorth i Fenywod Cyfannol.

**A yw hyn yn disodli'r gwasanaeth IDVA neu'n ychwanegu ato?**

Nid yw Tabw yn disodli gwasanaethau IDVA/Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol presennol. Gwasanaeth penodol iawn ydyw a bydd angen i'r IPPVA gydweithio â gwasanaethau eraill i sicrhau bod y goroeswr yn cael y gefnogaeth orau. Yn ychwanegol, os byddai'n well gan unrhyw oroeswr dderbyn cymorth gan eu gwasanaeth lleol, bydd hyn ar gael iddynt.

**A oes yn rhaid i ni drosglwyddo achosion presennol i'r IPPVA?**

Nid o reidrwydd. Lle mae perthynas sefydledig rhwng goroeswr a gweithiwr, nid ydym yn disgwyl bod cefnogaeth yn dod i ben ac yn cael ei drosglwyddo i IPPVA. Fodd bynnag, os yw goroeswr am gael ei atgyfeirio at Tabw, byddwn yn derbyn yr atgyfeiriad.

**A all aelodau'r cyhoedd gyfeirio?**

Ddim ar hyn o bryd. Rydym wedi rhoi llwybr atgyfeirio graddol ar waith a bydd atgyfeiriadau gan y cyhoedd ar gael o ddechrau 2024. Rydym yn ymwybodol o ddiddordeb y cyhoedd a'r cyfryngau mewn Cam-drin Domestig a Gyflawnwyd gan yr Heddlu ac rydym am sicrhau ein bod yn gallu hyrwyddo'r gwasanaeth yn y ffordd fwyaf effeithiol.

**A fydd achosion yn mynd at MARAC yn ôl yr arfer?**

Bydd unrhyw achos y mae angen ei drafod drwy'r broses MARAC yn cael ei gynnal mewn lleoliad MARAC caeedig; mae hyn er mwyn sicrhau mai dim ond y personau sy'n berthnasol i'r achos sy'n bresennol ac mae'n cynnal lefel uwch o gyfrinachedd a sicrwydd i'r goroeswr a'r Cyflawnwr Honedig.

**Sawl IPPVA sydd?**

Un IPPVA llawn amser ac un IPPVA rhan amser. Gwasanaeth rhanbarthol yw hwn, felly bydd y ddau IPPVA yn gweithio ar draws y rhanbarthau.

**A fydd yr IPPVA yn darparu cymorth wyneb yn wyneb?**

Bydd, caiff cymorth ei ddarparu drwy ba bynnag dull sy'n well gan y goroeswr. Bydd y lleoliad hefyd yn cael ei bennu gan y goroeswr a bydd yr IPPVA ar gael ac yn hygyrch i anghenion y goroeswr.

**Beth os yw goroeswyr eisiau cael eu cefnogi gan eu gwasanaeth lleol neu gael mynediad at wasanaethau penodol yn eu hardal?**

Mae hyn yn iawn; bydd gan bob goroeswr ddewis o gymorth drwy'r gwasanaeth Tabw neu eu gwasanaeth lleol.

**Beth os yw'r goroeswr yn byw yn ardal heddlu Gwent neu Dde Cymru ond bod y Cyflawnwr Honedig yn wedi'i gyflogi gan ardal heddlu arall?**

Gall Tabw gefnogi o hyd.

**Beth os yw'r Cyflawnwr Honedig yn gweithio o fewn ardal heddlu De Cymru neu Gwent ond mae'r goroeswr yn byw y tu allan i'r ardaloedd hyn?**

Byddwn yn gweithio ar y cyd â'r gwasanaeth lleol ac yn gweithredu fel pwynt cyswllt lle mae ymchwiliad mewnol parhaus.

# *Llwybr Atgyfeirio'r Heddlu – PPN*

**De Cymru**
Adran safonau proffesiynol yn ymchwilio ac yn goruchwylio pob agwedd ar yr achos.

**Gwent**
Adran safonau proffesiynol yn gweithredu fel pwynt cyswllt unigol. Heddlu lleol yn cynnal ymchwiliad troseddol.

Heddlu yn cael gwybod am Drais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol a gyflawnwyd gan yr heddlu

**De Cymru:**
Aseswyr Risg yr Adran Safonau Proffesiynol yn atgyfeirio

**Gwent:**
Tîm Diogelu Cam-drin Domestig (DAST)

Pob digwyddiad lle mae 'r cyflawnwr honedig / dioddefwr yn cael ei gyflogi gan ardaloedd heddlu De Cymru neu Gwent i gael ei drin fel risg uchel

Atgyfeiriad yn cael ei wneud i Vale DAS gydag enw pwynt cyswllt unigol: tabw@atalyfro.cjsm.net

Dosrannu i IPPVA
- Cydnabod atgyfeiriad gydag enw'r IPPVA
- Cynnig ar gyswllt gyntaf o fewn un diwrnod gwaith
- Cynnig ar bedwar cyswllt dros y tri diwrnod gwaith nesaf

Wedi cysylltu

Nodi risgiau, anghenion a chryfderau
Cynllun Diogelwch a Chymorth
Adborth i bwynt cyswllt unigol

Methu â Chysylltu

Rhoi gwybod i bwynt cyswllt unigol
Nodi gwasanaethau eraill sy'n gysylltiedig
Archwilio opsiynau ymgysylltu

*"Mae swyddogion heddlu yn cyflawni rôl hollbwysig wrth ymateb i adroddiadau o gam-drin a thrais domestig. Weithiau gall cydweithwyr neu ffrindiau fod yn gysylltiedig a gwyddom y gall hyn fod yn hynod o anodd. Bydd y gwasanaeth newydd hwn yn galluogi swyddogion a staff sy'n ymwybodol o gam-drin, neu sy'n ei brofi eu hunain, i godi pryderon a cheisio cyngor yn gyfrinachol gan arbenigwr diduedd."*

Emma Wools, Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru



# Llwybr Atgyfeirio Anffurfiol – Atgyfeiriadau Gwasanaethau Nid Ydynt yn PPN

Rydym yn gwybod na fydd pob achos o Drais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn cael ei adrodd yn ffurfiol. Rydym hefyd yn gwybod pa mor anodd yw adrodd stori neu ddelio â datgeliad. Rydym eisiau ei wneud mor hawdd â phosibl.

Os oes gennych ddatgeliad yr hoffech ei drafod, os ydych chi'n aelod o'r heddlu sy'n profi unrhyw fath o Drais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, neu os hoffech wneud atgyfeiriad gyda chydsyniad, gallwch gysylltu â ni drwy e-bostio tabw@valedas.org neu ffonio 01446 744755 a gofyn am gael siarad â Beth.

1. Derbyn Gwybodaeth neu Ddatgeliad
2. Rhoddwyd cydsyniad i drafod â Tabw
3. E-bostio tabw@valedas.org gan roi enw, rhif cyswllt diogel, cydsyniad wedi'i dderbyn
4. Neu e-bostiwch i drefnu galwad i drafod opsiynau

> *"Offer ychwanegol sydd yna i'ch cefnogi ydyw, felly os ydych chi'n ymwybodol o gam-drin ac nad ydych yn teimlo eich bod yn gallu adrodd amdano yn fewnol, cysylltwch â Tabw am gymorth."*
>
> Emma Wools, Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru

# TABW

**Cymorth i ddioddefwyr Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol a Gyflawnwyd gan yr Heddlu**



## *Manylion Cyswllt*

Vale DOMESTIC ABUSE SERVICES GWASANAETHAU CAM-DRIN DOMESTIG

**Vale Domestic Abuse Services**
Lisa Ware
Dirprwy Brif Weithredwr - Gweithrediadau

CYMORTH I FENYWOD CYFANNOL WOMEN'S AID

**Cyfannol Women's Aid**
Kelly Beaumont
Rheolwr Gwasanaethau Rhanbarthol

**IPPVAs**
Beth Gill & Deb Stolenzburg

**E-bost: tabw@valedas.org** **Ffôn: 01446 744755**

De Cymru Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Police and Crime Commissioner South Wales

COMISIYNYDD YR HEDDLU A THROSEDD GWENT POLICE AND CRIME COMMISSIONER